Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>20 MAI 2019<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>20 MAY 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.**

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**2** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg cyhoeddi'r rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2019.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **FFURFIOLI'R BARTNERIAETH RHWNG YSGOL GOROWNY OWEN AC YSGOL MOELFRE TRWY'R BROSES FFEDERALEIDDIO** (Tudalennau 17 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**6** **STRATEGAETH FODERNEIDDIO - ARDALOEDD LLANGEFNI A SEIRIOL** (Tudalennau 23 - 26)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**7** **POLISI GOSOD - YMGYNGHORI AR GYNNWYS CYSYLLTIAD LLEOL O FEWN Y SYSTEM BANDIO** (Tudalennau 27 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ebrill, 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Eric Jones, Bryan Owen, Shaun Redmond |

Ar ran y Pwyllgor Gwaith, cydymdeimlodd y Cadeirydd yn ddwys â theulu'r diweddar Philip Fowlie, a fu'n gynghorydd yng Nghyngor Sir Ynys Môn, yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorwyr Richard Dew, Llinos Medi, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS a Robin Williams ddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen.

Dywedodd y pum Cynghorydd eu bod wedi cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan yn y trafodaethau a phleidleisio. Cafodd y Cynghorwyr Richard Dew, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS a Robin Williams ganiatâd arbennig ar 22 Mawrth, 2019 a'r Cynghorydd Llinos Medi ar 28 Ionawr, 2019.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd arnynt.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith, cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2019.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2019 fel rhai cywir.**



DRAFT

## 4. COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd ar gyfer eu mabwysiadu – cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2019.

**Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2019.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Mai, 2019 i Ragfyr, 2019.

Rhoes Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r **eitemau hynny a oedd yn newydd i'r Rhaglen Waith** fel a ganlyn -

- Eitem 2 – Cais i Gydweithio – Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mai, 2019.
- Eitem 3 – Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol) *(Cymeradwyaeth i ymgynghori)* i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Mai, 2019.
- Eitem 7 – Dogfen Gyflawni Flynyddol 2019/20 i gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin, 2019.
- Eitem 10 – Adroddiad ar y gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol ar ostwng oed mynediad i Ysgol Henblas i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin, 2019.
- Eitem 13 – Cyfrifon Terfynol Drafft 2018/19 i gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf, 2019.
- Eitem 19 – Strategaeth Ariannol Tymor Canol i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Medi, 2019.
- Eitem 20 – Adolygiad Rheoli Trysorlys 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Medi, 2019.
- Eitem 22 – Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol) *(Cymeradwyo'r polisi yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus)* i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Medi, 2019.
- Eitem 30 – Arolwg AGC o'r Gwasanaethau Plant yn Ynys Môn – Adroddiad Cynnydd Chwarterol ar y Cynllun Gwella i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, 2019.

Wrth nodi'r Flaen Raglen Waith, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am i'r cyfeiriad at y Cynghorydd Carwyn Jones fel yr Aelod Portffolio ar gyfer eitemau 3 a 22 yn y fersiwn Gymraeg gael ei newid i'r Cynghorydd Alun Mummery.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Mai i Ragfyr 2019 fel y'i cyflwynwyd.**

## 6. YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid y cafodd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith am y tro cyntaf llynedd a'u bod yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2016/17. Bryd hynny, roedd gwaith wrthi'n cael ei

DRAFT

wneud i ddod ag eiddo sy'n rhan o Stad Elusennol David Hughes i fyny safon. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau. Oherwydd y gall strwythur cyfredol yr Ymddiriedolaeth fod yn gaeth, mae trafodaethau rhwng y Swyddog Adran 151 a Swyddogion Cyfreithiol y Cyngor wedi cychwyn er mwyn ystyried y newidiadau y gellir eu gwneud i ailstrwythuro'r Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn fwy hyblyg ac yn fwy perthnasol i addysg gyfoes a'i gofynion. Cynigiodd yr Aelod Portffolio bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd y trafodaethau hyn ymhen chwe mis.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach wedi gwneud colled o £66k yn 2017/18. Er mwyn parhau â'r rhaglen i atgyweirio'r stad, gwariwyd £119k ar waith trwsio a chynnal a chadw. Tybiwyd hefyd y byddai'n ddoeth creu darpariaeth ar gyfer dyledion drwg (£34,141) oherwydd maint y dyledion hanesyddol sydd wedi cronni er bod yr ymdrechion i gasglu'r dyledion gan denantiaid blaenorol wedi cyflymu'n ddiweddar.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig ei fod yn cael adroddiad ymhen chwe mis ar gynnydd y trafodaethau i ailstrwythuro'r Ymddiriedolaeth.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2017/18 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad A yr adroddiad.**
- **Bod adroddiad ar gynnydd trafodaethau ynglyn ag ail-strwythuro Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ymhen 6 mis.**

**7. ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL HENBLAS**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn cynnwys adroddiad ar ymgynghoriad ynghylch gostwng oed mynediad Ysgol Henblas o 3 Medi, 2019.

Yn dilyn cais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Henblas i ostwng yr oed mynediad i Ysgol Henblas, dywedodd y Cadeirydd fod yr Awdurdod wedi cynnal ymgynghoriad ar y cais ac wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor a drafodwyd mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethu llawn ar 28 Tachwedd, 2018. Cylchredwyd copïau o'r ddogfen ymgynghori i'r ymgyngoreion a restrwyd yn y ddogfen ac fe'u gwahoddwyd i sesiwn galw-i-mewn yn yr ysgol ar 5 Chwefror, 2019 i drafod goblygiadau'r cynnig i drefniadaeth yr ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd gydag aelodau'r Cyngor Ysgol er mwyn sicrhau bod lleisiau'r disgyblion yn cael gwrandawiad yn yr ymgynghoriad. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 1 Mawrth, 2019.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r ymateb i'r ymgynghoriad sy'n dangos bod y Corff Llywodraethu, y rhieni a'r Cyngor Ysgol o blaid y cynnig. Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan Estyn (Atodiad 2 yr adroddiad), darperir tystiolaeth gefnogol ar ffurf datganiadau o'r adroddiad a gyhoeddwyd gan GwE yn ddiweddar a data cyrhaeddiad disgyblion dros gyfnod o amser. Roedd Swyddogion yr Awdurdod yn argymell y dylid symud ymlaen gyda'r cynnig a chychwyn y broses o gyhoeddi rhybudd statudol a chasglu gwrthwynebiadau.

**Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen gyda'r drefn i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas drwy gyhoeddi rhybudd statudol a chasglu gwrthwynebiadau.**

DRAFT

## 8. MODERNEIDDIO YSGOLION – ADDYSG ÔL-16

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Dysgu ar ganlyniad yr ymgysylltiad gyda chydranddeiliaid mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi ymgysylltu gyda chydranddeiliaid fel rhan o'r broses o adolygu'r ddarpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn. Pwrpas yr ymgysylltiad oedd mofyn barn a syniadau rhieni, disgyblion, staff, llywodraethwyr, aelodau etholedig a chydranddeiliaid eraill ar y cynlluniau moderneiddio addysg ôl-16 yn Ynys Môn. Roedd y pum ysgol uwchradd ar Ynys Môn yn rhan o'r adolygiad. Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun yr adolygiad, y broses ymgynghori a gynhaliwyd, y rhesymau dros newid, yr opsiynau a ystyriwyd ac ymatebion yr ysgolion a chydranddeiliaid eraill. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith roi'r awdurdod i'r Swyddogion, yn wyneb canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori a maint y wybodaeth sydd angen ei dadansoddi, dreulio amser pellach yn asesu'r opsiynau gyda'r nod o werthuso a pharatoi opsiynau posibl y gellir symud ymlaen â nhw erbyn diwedd 2019.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad ar y broses ymgysylltu ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd ym Môn.**
- **Awdurdodi Swyddogion i gael cyfnod i asesu'r opsiynau o ran dyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd yn y sir er mwyn paratoi a gwerthuso opsiynau posibl ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd 2019.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Mai 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2019 – Ionawr 2020;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mehefin 2019 – Ionawr 2020. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2019 - Ionawr 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin 2019** | | | | | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018/19**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2019 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 4 | **Dogfen Gyflawni Blynyddol 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhe lliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad y Pwyllgor llawn er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | Dyddiad i'w gadarnhau. |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 6 | **Contract Rheoli Gwastraff**<br><br>Cymeradwyo'n derfynol y dull ar gyfer darparu'r gwasanaeth rheoli gwastraff o Ebrill 2021 ymlaen. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith er mwyn sicrhau bod manylion y gwasanaeth a ddarperir o Ebrill 2021 ymlaen yn cwrdd ag amcanion y Cyngor o ran rheoli gwastraff. | Adnoddau / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151 /<br>Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo dros dro<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 7 | **Polisi Corfforaethol ar Adennill Dyledion**<br><br>Mabwysiadu polisi. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |

**  Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Adroddiad ar wrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol ynghylch gostwng Oed Mynediad yn Ysgol Henblas**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 9 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>25 Mai 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| | | | | **Gorffennaf 2019** | | | |
| 10 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 11 | **Cyfrifon Terfynol Drafft ar gyfer 2018/19** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgysylltu. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini<br><br>Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 13 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 14 | **Cais i Ffederaleiddio Ysgol Carreglefn ac Ysgol Llanfechell**<br><br>Cymeradwyaeth i ymgynghori. | | Dysgu | Arwyn Williams Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| | **Medi 2019** | | | | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 17 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 18 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>(dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 19 | **Adolygiad Rheoli Trysorlys 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

Tudalen 13

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>22 Awst 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| | | | | **Hydref 2019** | | | |
| 21 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| 22 | **Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol)**<br><br>Cymeradwyaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |
| | | | | **Tachwedd 2019** | | | |
| 23 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>I'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>11 Tachwedd 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 25 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 26 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 27 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cam 2 – adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r broses ymgysylltu a chynigion Trawsnewid. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini<br><br>Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mehefin 2019 – Ionawr 2020

Diweddarwyd 10 Mai 2019

Tudalen 16

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Rhagfyr 2019** | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| 29 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>I'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| | | | | **Ionawr 2020** | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ionawr 2020 | |

**  Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **Mai 20fed, 2019** |
| **Pwnc:** | **Ffurfioli'r Bartneriaeth rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre trwy'r broses ffederaleiddio.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Meinir Hughes**<br>**1248752947**<br>**MeinirHughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Margaret M Roberts**<br>**Cynghorydd Ieuan Williams**<br>**Cynghorydd Vaughan Hughes** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**

1. Yn awdurdodi swyddogion i gychwyn y broses o ymgynghori ar ffurfioli'r bartneriaeth rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre trwy ffederaleiddio'r ddau gorff Llywodraethu.

**Cefndir**

Derbyniodd yr Adran Addysg Cyngor Ynys Môn gais gan Gyrff Llywodraethu Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre i gynnal ymgynghoriad ar sefydlu trefniant mwy ffurfiol rhwng y ddwy ysgol. Golyga hyn y byddai'r ddwy ysgol yn cael ei rheoli o dan un corff sengl a fyddai'n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar bob ysgol yn y ffederasiwn. Byddai pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb a'i staff ac yn aros yn ei chymuned.

Mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth wirfoddol o dan ofalaeth a rheolaeth un pennaeth a phennaeth cynorthwyol [Ysgol Moelfre]. Byddai ffurfioli'r bartneriaeth yn golygu parhau gyda'r cyd weithio llwyddiannus sydd eisoes yn bodoli o dan arweinyddiaeth y pennaeth presennol. Yn ogystal â hyn, mae nifer o fanteision eraill i ffederaleiddio, mae hyn yn cynnwys sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgolion i'r dyfodol a manteision o ran cydlynu'r defnydd gorau o adnoddau ac arbenigeddau'r ddwy ysgol.

Bydd hefyd yn creu ymdeimlad o hunaniaeth gyfrannol rhwng ysgolion mewn ardaloedd sydd yn ddaearyddol agos, a chreu ymdeimlad o gymuned gynhwysol. O dan arweiniad un Corff Llywodraethu bydd yn gyfle i wireddu gweledigaeth ar y cyd rhwng ysgolion i wella cyrhaeddiad, cyflawniad a chynnydd y plant.

Ni fyddai'r trefniant hwn yn golygu unrhyw newidiadau arwyddocaol ar gyfer rhieni na phlant y ddwy ysgol.

Yn ei adroddiad ar adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol, dywed Robert Hill fod *....'ffederasiynau a mathau eraill o bartneriaethau ffurfiol rhwng ysgolion yn darparu llwyfan cryf ar gyfer cynyddu ymreolaeth a dyrchafu cyrhaeddiad ysgolion. '*

Mae'r Awdurdod yn argymell y dylid rhoi caniatâd i gychwyn ar y drefn ymgynghori.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Yr opsiwn arall yw parhau gyda'r trefniadau presennol ond mae'r ysgolion a'r Cyrff Llywodraethu'n awyddus i symud i ymgynghori ar y cynnig hwn oherwydd y manteision amlwg. Yn bennaf bydd ffurfioli'r bartneriaeth yn galluogi'r ysgolion i gydweithio trwy broses strwythuredig ffurfiol, trwy rannu un corff llywodraethu, a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd pennaf y ddwy ysgol, y staff a'r disgyblion

Yng ngoleuni hyn mae'r Awdurdod yn cefnogi'r cais.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae ffederaleiddio yn 'newidiad a reoleiddir' o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion, 011/2018. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Fel rhan o'r rhaglen moderneiddio ysgolion Ynys Môn mae'n fwriad gan y Cyngor i edrych ar ardal Lligwy yn ei chyfanrwydd i'r dyfodol.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r UDA wedi'i hymgorffori yn y cynnwys. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldeb** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Llythyr cais gan y ddau Gorff Llywodraethu i ffederaleiddio'r ddwy ysgol. |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

**ATODIAD 1**

YSGOL GORONWY OWEN
**Benllech**
**Ynys Môn**
**LL74 8SG**
**0101248 852 667**

Ysgol Goronwy

12:03:19

Annwyl Pennaeth Gwasanaethau,

Yn dilyn cyfarfod llawn o`r Corff Llywodraethol, nos Fawrth, Chwefror 26ain, 2019 hoffem fel ysgol symud ymlaen gyda`r broses o ymgynghori ffurfiol ar Ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen gyda Ysgol Gymuned Moelfre.

Yn gywir,

Mr Ieuan Williams

**Corff Llywodraethol**

CC-14562-LB/193934

Ysgol Gymuned Moelfre

**YSGOL GYMUNED MOELFRE**
**Ffordd Lligwy**
**Moelfre**
**Ynys Môn**
**LL72 8LJ**
**01248 410 546**

12:03:19

Annwyl Pennaeth Gwasanaethau,

Yn dilyn cyfarfod llawn o`r Corff Llywodraethol, nos Iau, Mawrth 7fed, 2019 hoffem fel ysgol symud ymlaen gyda`r broses o ymgynghori ffurfiol ar Ffederaleiddio Ysgol Gymuned Moelfre gyda Ysgol Goronwy Owen.

Yn amgaeedig, mae copi o gofnodion y Corff llawn yn dilyn y cyfarfod.

Yn gywir,

Osian Roberts (Cadeirydd)

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **20 Mai 2019** |
| **Pwnc:** | **Cais i ddiddymu ei benderfyniadau blaenorol ynglŷn â dyfodol darpariaeth addysg yn ardal Llangefni a Seiriol.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>**gethinmorgan@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Bob Parry**<br>**Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Cynghorydd Nicola Roberts**<br>**Cynghorydd Lewis Davies**<br>**Cynghorydd Carwyn Jones**<br>**Cynghorydd Alun Roberts**<br>**Cynghorydd Eric Wyn Jones**<br>**Cynghorydd Dafydd Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**RHESYMAU:**

Oherwydd nifer o sylwadau a phryderon ynglŷn â'r broses ymgynghori yn Ardaloedd Llangefni a Seiriol a chwyn ynglŷn â diffyg cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), cynhaliodd swyddogion adolygiad mewnol o'r broses ymgynghori statudol yn y ddwy ardal.

Mae canfyddiadau'r broses adolygiad mewnol wedi amlygu pryderon technegol ynglŷn â chydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013)

Pa fath o bryderon?

- Manylion am unrhyw ddewisiadau yn hytrach na chau ysgol a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad anstatudol, a bod y rheswm pam na pharhawyd â nhw heb ei gynnwys yn y dogfennau ymgynghori statudol terfynol.

*Nid yw hyn yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 3.2 sy'n nodi bod rhaid cynnwys "disgrifiad o unrhyw ddewisiadau amgen a ystyriwyd a'r rhesymau dros eu gwrthod" yn y ddogfen ymgynghori statudol .*

- Pryder na rannwyd yr asesiad effaith â'r rhanddeiliaid mewn un achos (Methiant i brofi heb amheuaeth resymol bod yr asesiad effaith wedi'i gyhoeddi ar yr un pryd â'r ddogfen ymgynghori statudol).

*Nid yw hyn yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 3.2 sy'n nodi bod rhaid, lle bo cynnig sy'n ymwneud â chau ysgol, rhaid cynnwys "effaith y cynigion ar y gymuned leol, yn enwedig*

*mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni olynol" yn y ddogfen ymgynghori.*

- Pryder na ddilynwyd cynnwys y cynigion cyhoeddedig a gyhoeddwyd drwy rybudd statudol yn gywir.

*Nid yw hyn yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 4.3 sy'n nodi bod rhaid cynnwys "y dyddiad olaf ar gyfer anfon gwrthwynebiadau a'r cyfeiriad y dylid eu hanfon iddo, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost perthnasol" mewn cynigion cyhoeddedig.*

**ARGYMHELLIAD:**

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ddiddymu'r penderfyniadau blaenorol ynglŷn â dyfodol addysg yn ardaloedd Llangefni a Seiriol.

**CEFNDIR:**

**Ardal Llangefni**

<u>Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir</u>
Ym mis Ebrill 2018, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith y dylid adeiladu ysgol newydd i ddisgyblion Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir a chau Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir. Rhoddwyd cyfnod o flwyddyn i Ysgol Henblas godi ei safonau ac i ddangos bod ei niferoedd yn aros yn gyson neu'n cynyddu.
Ym Mawrth 2019, tynnwyd Ysgol Henblas o'r cynnig i uno ar un safle newydd â Bodffordd a Corn Hir oherwydd bod safonau addysgol yr ysgol wedi gwella a'u niferoedd o ddisgyblion wedi aros yn gyson.

<u>Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn</u>
Ym mis Gorffennaf 2018, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwn a chau Ysgol Talwrn.

**Ardal Seiriol**
Ym mis Gorffennaf 2018, penderfynwyd cau Ysgol Biwmares, ehangu Ysgol Llandegfan ac adnewyddu Ysgol Llangoed.

| **B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amh. |

| **C – Pam bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Amh. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amh. |

| **E – Gyda phwy a ymgynghoroch chi?** | | **Beth oedd eu harsylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Rheoli (UDRh)** (gorfodol) | Corfforedig yn yr adroddiad hwn. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Corfforedig yn yr adroddiad hwn. |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Corfforedig yn yr adroddiad hwn. |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Corfforedig yn yr adroddiad hwn. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | Corfforedig yn yr adroddiad hwn. |
| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Ddim yn berthnasol. |
| **3** | **Trais ac anhrefn** | Ddim yn berthnasol. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol. |
| **5** | **Cydraddoldeb** | Ddim yn berthnasol. |
| **6** | **Cytundebau Canlyn** | Ddim yn berthnasol. |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **G – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013<br>Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018<br>Adroddiad Pwyllgor Gwaith 30/04/2018<br>Adroddiad Pwyllgor Gwaith 16/07/2018<br>Adroddiad Pwyllgor Gwaith 18/07/2018 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 20 Mai, 2019 |
| **Pwnc:** | Polisi Gosod – ymgynghori ar gynnwys cysylltiad lleol o fewn system bandio |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elliw Llŷr, Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisynu, Gwasnaethau Tai<br>01248752137 |
| **Aelodau Lleol:** | Dd/b |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1** yn dilyn cynnal gwaith ymchwil pellach bod cyfnod ymgynghori yn cymryd lle ar gyfer cynnwys cysylltiad lleol o fewn y Polisi Gosod Cyffredin cyfredol

**A2** bod cyfnod ymgynghori yn gallu cynnig cyfle i wella trefniadau gweinyddu'r gofrestr

**Cefndir**

Mae yna 4734 o unedau o dai cymdeithasol ar Ynys Môn. Dyma'r ganran o'r stoc y mae pob landlord yn berchen arni:

| Landlord | Nifer yr Unedau | Canran o'r Stoc |
|---|---:|---:|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3819 | 81% |
| Grŵp Cynefin | 524 | 11% |
| Tai Gogledd Cymru | 143 | 3% |
| Clwyd Alyn | 248 | 5% |

Ar gyfartaledd mae Tîm Opsiynau Datrysiadau yn gosod tua 260 o dai Cyngor y flwyddyn.

Yn ystod 2015/16 adolygwyd a diwygiwyd y Polisi Gosod Tai Cyffredin o fod yn system sy'n seiliedig ar bwyntiau i fod yn system sy'n seiliedig ar fandiau. Daeth y Polisi newydd i rym ar yn ffurfiol yn mis Gorffennaf 2016.

Mae'r drefn yn seiliedig ar system fandio sef:

- Brys - Cysylltiad lleol ac angen brys am dŷ
- Band 1 - Angen a chysylltiad lleol
- Band 2 - Angen brys ond dim Cysylltiad lleol
- Band 3 - Angen ond dim Cysylltiad Lleol.

Cyflwynwyd y Polisi Gosod Tai diwygiedig i gael gwared ar aneffeithlonrwydd yn y broses gosod tai, gan sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu gosod i'r unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf am dai, ac i sicrhau cysondeb o ran sut mae pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu pan fo eiddo ar gael i'w osod.

Mae nifer o newidiadau wedi eu cyflwyno yn dilyn gweithrediad y Polisi Gosod Cyffredin, er mwyn cefnogi effeithlonrwydd, mae'r newidiadau fel a ganlyn:

a) Rhaid i ymgeiswyr ddarparu 'prawf' yn y cyfweliad asesiad am lety.
b) Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gosod tai eu hunain.
c) Ymgeisydd ddim yn gallu dewis strydoedd mwyach.
d) Dim ond un ymgeisydd y byddwn yn ei dderbyn ar y Ffurflen Gais am lety.
e) Defnydd o Orchard.
f) Defnyddio bandio er mwyn lleihau'r rhestr aros.
g) Ymgeiswyr ddim yn gallu cofrestru os nad oes ganddynt anghenion tai.

Mae Gwasanaethau Tai yn awyddus i gyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy drwy sicrhau bod cysylltiadau teuluoedd a chymunedol yn cael eu cynnal. Ein bwriad yw adolygu y Polisi Cofrestr Tai Cyffredin er mwyn gweld os yw ein Polisi cyfredol yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy.

Byddwn yn cynnal adolygiad yn ogystal ag ymgynghori ar newid arfaethedig cyn i'r Polisi terfynol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn mis Hydref, 2019.

Er mwyn gallu bod yn gymwys i gael eu cynnwys ar Gofrestr Tai Cyffredin mae angen i berson fod mewn angen tai, mae hyn yn cael ei ddiffinio o fewn Deddf Tai 1996 ac mae cyswllt o ran cysylltiad lleol yn rhan o Ddeddf Tai, 2014.

Ar hyn o bryd mae gofyn bod gan unrhyw ymgeisydd gysylltiad o isafswm o 5 mlynedd o gysylltiad gyda'r Ynys. Os nad oes gan berson gysylltiad gyda'r Ynys ond mae ganddynt angen am dy byddent o fewn band is.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr gael cysylltiad gyda plwyf / pentref neu dref benodol gallent cael eu hystyried am unrhyw ardal mae gennym stoc cymdeithasol.

Yn ystod 2018 cynhalwyd adolygiad o weithred y Polisi gan Tim Strategol, Polisi a Chomisynu Gwasanaethau Tai ac byddai cyfnod ymgynghori hwn yn cynnig cyfle i adolygu rhai elfennau'r Polisi er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bwrpas wrth symud ymlaen. Bydd gwaith ymchwil ac ymgynghori yn allweddol ar gyfer cyflwyno unrhyw newiadau i'r Polisi Gosod Cyfredol.

**Ymgynghori â phartneriaid lleol a rhanddeiliaid allweddol**

**Cynllun Cyfathrebu**

Nod yr ymgynghoriad yw cynnal gwaith ymchwil pellach ar ddifnio cysylltiad lleol ynghyd ag derbyn adborth ar sut gellir cyflawni hyn.

**Cynulleidfa Darged:**

a) Drwy gynnal ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Landlordiaid Cymdeithasol; Tai Gogledd Cymru, Pennaf a Grŵp Cynefin
- Darparwyr Cefnogi Pobl; y Wallich, Digartref Ynys Môn, CAIS acyb
- Rhai sydd yn darparu gwasanaeth cynghori
- Llywodraeth Cymru

b) Cwsmeriaid sy'n debygol o gael eu heffeithio
c) Aelodau Etholedig
d) Cynghorau Tref a chymuned
e) Swyddogion y Cyngor, yn cynnwys Uwch Reolwyr

Ymgysylltu:

| | **Disgrifiad** | **Dull** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| 1. | Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith | Cytuno ar y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn a'r cynllun cyfathrebu. | Ebrill |
| 2. | Cynnal gwaith ymchwil pellach ar Bolisiau Gosod Cyffredin eraill yn Nghymru | Cynnal gwaith ymchwil pen desg a chyfarfodydd gyda Cymdeithasau Tai a sefydlu grŵp tasg a gorffen mewnol | Ebrill |
| 3. | Ymgynghoriad cyhoeddus drafft terfynol | Ar gael ar-lein. | Mai-Mehefin |
| 4. | Asesu ymatebion a cynnal asesiad effaith | | Gorffennaf |
| 5. | Drafft terfynol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn dilyn yr ymgynghoriad. | | Medi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 6. | Cymeradwyaeth gan Bwyllgor Gwaith | | Hydref |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae’r broses ymgynghori yn rhoi cyfle i ystyried newidiadau i weithrediad y Polisi Gosod Cyffredin. Heb newid y polisi ni fyddai yn bosib newid unrhyw drefniadau ar sut mae tai cymdeithasol yn cael eu gosod. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Newidiadau i’r Polisi Gosod Cyffredin yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim sylwadau |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

This page is intentionally left blank